

Cofnodion Cyfarfod o'r
PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU
a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 11 Mawrth 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), y Cyngorwyr Bryan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Lloyd Edwards, Keith Evans, Paul Hinge, Hag Harris, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Mark Strong, Lynford Thomas, Wyn Thomas ac Ivor Williams

Hefyd yn bresennol: Y Cyngorwyr Ellen ap Gwynn, Gareth Lloyd, Catrin Miles a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

Swyddogion yn bresennol:- Mrs Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion; Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Safonau a Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Craffu

(10.30am-11:45am)

- 1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cyngorwyr Euros Davies a Mark Strong am na fedrent ddod i'r cyfarfod.
- 2 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.
- 3 **Gwella ysgolion drwy weithio'n rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian**
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Ysgolion ynglŷn â *Gwella ysgolion drwy weithio'n rhanbarthol: adolygiad o effaith ERW ar wella ysgolion a gwerth am arian*. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â therfynu safle'r Cyngor ar Gonsortiw ERW, yr angen i gydymffurfio â Chytundeb Cyfreithiol ERW, a'r hysbysiad o dynnu allan a gyflwynwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.2020 er mwyn cwblhau'r broses i dynnu allan o Gonsortiw ERW.

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Ysgolion y wybodaeth ganlynol i'r Aelodau am yr hyn a arweiniodd at y cytundeb i dynnu allan o Gonsortiw ERW:-

- Y Cefndir
- Y Sefyllfa Bresennol
- Cefnogaeth ERW
- Gwerth am Arian
- Peryglon Tynnu Allan

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet y dydd Mawrth canlynol fel y gellid gwneud penderfyniad yn seiliedig ar yr argymhelliad canlynol:-

Bod y Cabinet:

- (i) yn nodi bod yr hysbysiad i dynnu allan a gyflwynwyd gan yr Arweinydd ar 17.3.20 yn sefyll fel y'i cyflwynwyd,
- (ii) yn cytuno y bydd y Cyngor yn tynnu allan o Gonsortiw ERW ar 31ain Mawrth 2021; ac
- (iii) os cytunir â rhif ii) uchod, y bydd awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Addysg/Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Ysgolion a Diwylliant mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet i gymryd pob cam angenrheidiol ac ymrwmo i bob cytundeb angenrheidiol er mwyn cwblhau'r broses o dynnu allan o ERW.

Bu i'r holl Aelodau ddiolch i'r Swyddogion am eu gwaith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

6 Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020 a 18 Chwefror 2021

CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd y Pwyllgor ar 17 Rhagfyr 2020 a 18 Chwefror 2021 yn rhai cywir.

Materion yn codi -

Dim.

Diolchodd yr Aelodau i'r Cynghorydd Endaf Edwards am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor. Byddai Cadeirydd newydd yn cadeirio'r cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar

Cadeirydd:-_____

Dyddiad:-_____

